



Datrys – Nodau ac amcanion

Nodwedd graidd system ariannol sefydlog yw bod rhaid i gwmnïau allu methu mewn ffordd drefnus – hynny yw heb darfu'n ormodol ar y system ariannol, heb ymyriad gocheladwy gormodol â'r swyddogaethau economaidd allweddol mae'r cwmnïau hyn yn eu darparu, a heb olygu bod trethdalwyr yn agored i golledion. Mae'r egwyddor hon yn sylfaenol i safon ryngwladol y Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol ar gyfer systemau datrys effeithiol (y Priodoleddau Allweddol), a gytunwyd gan arweinwyr G20 yn 2011. Cynllunir y trefniadau ar gyfer datrys banciau, cymdeithasau adeiladu a chwmnïau buddsoddi sy'n methu yn y Deyrnas Unedig i gydymffurfio â'r Priodoleddau Allweddol.

Os yw cwmni o fewn cwmpas y system ddatrys yn methu, bydd y Banc yn anelu at sicrhau y cedwir effeithiau niweidiol y methiant hwnnw l'r isafswm, er enghraifft fel bod:

- mynediad i adneuoedd a ddiogelir gan y Cynllun Diogelu Gwasanaethau Ariannol (FSCS) yn cael ei gynnal: delir oddeutu £1.1trn o adneuoedd manwerthu gan unigolion mewn banciau a chymdeithasau adeiladu, a mae'n debygol bod y mwyafrif ohonynt yn cael eu diogelu gan yr FSCS;
- taliadau cwsmeriaid yn dal i lifo: yn y DU, trosglwyddir taliadau o oddeutu £300bn bob dydd trwy fanciau ar ran cwsmeriaid manwerthu a busnes, er enghraifft i gwblhau pryniadau tai ac i dalu cyflogau a biliau;
- swyddogaethau allweddol credyd ac eraill yn dal i gael eu darparu l'r economi lletach; a
- chedwir y risg o 'werthiannau tân' anhrefnus o asedau'r cwmni, neu roi terfyn ar ei gcontractau deilliadau, at isafswm.

Gan fod y system ddatrys yn rhoi pwerau i'r Banc i effeithio ar hawliau cyfranddalwyr, credydwyr a gwrthbartion, mae'r Ddeddf yn cyflwyno'r amcanion mae'n rhaid i'r Banc eu hystyried wrth ddatrys cwmni. Y rhain yw:

- sicrhau parhad gwasanaethau bancio a swyddogaethau allweddol yn y Deyrnas Unedig;
- diogelu a gwella sefydlogrwydd system ariannol y Deyrnas Unedig;
- diogelu a gwella hyder y cyhoedd yn sefydlogrwydd system ariannol y Deyrnas Unedig;
- diogelu arian cyhoeddus, gan gynnwys lleihau dibyniad ar gymorth ariannol cyhoeddus anghyffredin;
- diogelu adneuwyr a buddsoddwyr a gwmpasir gan gynllun diogelu gwasanaethau ariannol (FSCS) y DU;
- diogelu, lle mae'n berthnasol, asedau cleientiaid; ac
- osgoi ymyrryd â hawliau eiddo, trwy fynd yn groes i Lys Hawliau Dynol Ewrop.

Mae'n rhaid l'r Banc ystyried pob un o'r amcanion hyn wrth ddewis pa offer l'w defnyddio ac wrth ddatrys cwmni, ond nid ydynt yn cael eu graddio mewn unrhyw drefn arbennig.